***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 633 (Cy. 143) (C. 55)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU
# HENEBION HYNAFOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) 2017

*Gwnaed - - - - 3 Mai 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 41 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1979" ("*the 1979 Act*") yw Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979(**2**);

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**3**);

ystyr "Deddf 2016" ("*the 2016 Act*") yw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016;

ystyr "y Gofrestr" ("*the Schedule*") yw'r Gofrestr o henebion a lunnir ac a gynhelir o dan adran 1 o Ddeddf 1979.

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar y diwrnod ar ôl i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud**

**2.** Y diwrnod penodedig i adran 30(6) o Ddeddf 2016 ddod i rym, i'r graddau y mae'n rhoi pŵer i wneud Gorchmynion o dan Ddeddf 1990, yw drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn.

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 8 Mai 2017**

**3.** Y diwrnod penodedig i adran 34 o Ddeddf 2016 ddod i rym yw 8 Mai 2017.

(**1**) 2016 dccc 4.
(**2**) 1979 p. 46.
(**3**) 1990 p. 9.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Mai 2017**

**4.** Y diwrnod penodedig i'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2016 ddod i rym yw 31 Mai 2017—

(a) adran 4;

(b) adran 25;

(c) adran 26; a

(d) adrannau 35 i 37.

**5.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2016 ddod i rym, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, yw 31 Mai 2017—

(a) adran 3;

(b) adran 5;

(c) adran 24;

(d) adran 30(6);

(e) Atodlen 1; ac

(f) Atodlen 2.

**Darpariaethau trosiannol**

**6.**—(1) Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1979 a wnaed gan adrannau 3 a 4 o Ddeddf 2016 yn gymwys i gynnig i gynnwys heneb yn y Gofrestr neu i eithrio heneb o'r Gofrestr, neu, yn achos heneb a nodir yn y Gofrestr drwy gyfeirio at fap a gynhelir gan Weinidogion Cymru, i wneud diwygiad perthnasol mewn perthynas â'r heneb, pan fo'r cynnig hwnnw yn destun, neu wedi bod yn destun, ymgynghoriad a ddyroddir rhwng 1 Ionawr 2017 a 31 Mai 2017.

(2) Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1990 a wnaed gan adrannau 24 a 26(1) i (3), (7), (8), (10) i (13), (14)(b) ac (16) o Ddeddf 2016 yn gymwys i gynnig i ddiwygio'r rhestr o adeiladau a lunnir neu a gymeradwyir o dan adran 1 o Ddeddf 1990 pan fo'r cynnig hwnnw yn destun, neu wedi bod yn destun, ymgynghoriad a ddyroddir yn unol ag adran 1 o Ddeddf 1990 cyn 31 Mai 2017.

(3) Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1990 a wnaed gan adrannau 25 a 26(4) i (6), (8) i (10), (12)(b)(ii), (13), (14)(a) a (15) o Ddeddf 2016 yn gymwys i hysbysiad diogelu adeilad a gyflwynir yn unol ag adran 3 o Ddeddf 1990 cyn 31 Mai 2017.

(4) Nid yw'r diwygiad i Ddeddf 1990 a wnaed gan adran 30(6) o Ddeddf 2016 yn gymwys i adennill treuliau gwaith a gyflawnir o dan adran 54 o Ddeddf 1990 pan fo hysbysiad o'r bwriad i wneud y gwaith hwnnw wedi ei roi i berchennog yr adeilad cyn 31 Mai 2017.

*Ken Skates*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

3 Mai 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Mae erthygl 2 yn dwyn adran 30(6) (gwaith brys: estyn y cwmpas ac adennill costau) o Ddeddf 2016 i rym, i'r graddau y mae'n rhoi pŵer i wneud gorchmynion o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 3 yn dwyn adran 34 (rhestr o enwau lleoedd hanesyddol) o Ddeddf 2016 i rym ar 8 Mai 2017.

Mae erthygl 4 yn dwyn yr adrannau a ganlyn o Ddeddf 2016 i rym ar 31 Mai 2017:

— adran 4 (diwygiadau sy'n ymwneud â'r Gofrestr: darpariaeth ganlyniadol);

— adran 25 (diwygiadau sy'n ymwneud â rhestru adeiladau dros dro);

— adran 26 (diwygiadau sy'n ymwneud â rhestru adeiladau: darpariaeth ganlyniadol);

— adran 35 (cofnodion amgylchedd hanesyddol);

— adran 36 (mynediad i gofnodion amgylchedd hanesyddol); ac

— adran 37 (canllawiau).

Mae erthygl 5 yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2016 i rym, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, ar 31 Mai 2017:

— adran 3 (diwygiadau sy'n ymwneud â'r Gofrestr);

— adran 5 (symleiddio'r broses);

— adran 24 (diwygiadau sy'n ymwneud â rhestru adeiladau);

— adran 30(6) (gwaith brys: estyn y cwmpas ac adennill costau);

— Atodlen 1; ac

— Atodlen 2.

Mae erthygl 6 yn cynnwys darpariaethau trosiannol.

Gweler adran 41 (dod i rym) o Ddeddf 2016 am ddarpariaethau a ddaeth i rym pan basiwyd Deddf 2016 ac ar ôl hynny.